

Cwestiynau Cyffredin am Addysg Gymraeg

Pwy all fynychu addysg Gymraeg?

Mae addysg Gymraeg ar gael i bawb ac mae plant yng Nghasnewydd yn cael cyfle i ddysgu Cymraeg a Saesneg.

Beth yw Addysg Gymraeg?

Mae'r plant yn ein hysgolion Cymraeg yn gallu siarad Cymraeg a Saesneg, ac yn astudio'r ddwy iaith. Mae addysg Gymraeg yn galluogi plant i ddod yn gwbl rugl yn y Gymraeg a'r Saesneg a derbyn addysg yn y pynciau eraill i gyd ar draws y cwricwlwm. Cymraeg yw iaith swyddogol pob gweithgaredd ffurfiol ac anffurfiol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'r holl addysgu ac asesu, heblaw am Saesneg fel pwnc, yn cael ei gyflwyno yn Gymraeg yn ystod pob cyfnod allweddol. Y nod yw sicrhau bod plant yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan gyflawni'r lefelau cyrhaeddiad disgwylidig ym mhob rhan o'r cwricwlwm.

Beth wnaif i os ydw i am ddysgu am ddarpariaeth cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg?

Gallwch chwilio am Ofal Plant Cyfrwng Cymraeg sydd wedi'i gofrestru gyda Arolygiaeth Gofal Cymru yma neu fel arall anfon e-bost family.information.service@newport.gov.uk a fydd yn eich helpu chi i leoli eich Cylch Meithrin neu Gylch Ti a Fi agosaf.

Ble mae'r ysgolion Cymraeg yng Nghasnewydd a pha un yw ysgol fy nalgylch?

Mae gennym bedair ysgol gynradd Gymraeg yma yng Nghasnewydd - pob un ag uned feithrin ynghlwm. Mae tair o'r ysgolion hyn yn gweithredu o leoliadau sefydledig ym Mrynglas, Ringland a Betws; agorwyd ein pedwaredd ysgol ym mis Medi 2021 ac mae wedi'i lleoli dros dro yng Nghaerllion, ond bydd yn symud i gartref parhaol ym Mhligwenlli ym mis Medi 2024. Agorwyd Ysgol Gyfun Gwent Is Coed, ein hysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg gyntaf, ym mis Medi 2016 ac o fis Medi 2022 bydd lle i ddisgyblion o Flwyddyn 7 i Flwyddyn 13.

Gallwch ddod o hyd i'ch ysgol dalgylch yma. (Nid eich ysgol ddalgylch yw eich ysgol agosaf yn awtomatig)

Beth os nad ydw i'n siarad Cymraeg?

Mae hyn yn gyffredin iawn - nid yw dros 95% o rieni plant sy'n mynychu ein hysgolion Cymraeg yn siarad Cymraeg eu hunain, ac mae ein hysgolion yn cefnogi hyn drwy ddarparu'r holl wybodaeth yn ddwyieithog. Yn wir, mae yna lawer o sefydliadau a all eich cefnogi chi a'ch plentyn drwy eich taith.

Sut gallaf i helpu fy mhlentyn gyda'i waith cartref os nad ydw i'n siarad Cymraeg?'

Mae ein hysgolion Cymraeg yn brofiadol iawn o ran cefnogi'r disgyblion a'r rhieni gyda gwaith cartref.

Rhoddir cyfarwyddiadau ysgrifenedig ar gyfer y gwaith cartref yn Gymraeg a Saesneg i'r disgyblion iau. Wrth i'r plant fynd yn eu blaen drwy'r ysgol, bydd modd i blant esbonio eu gwaith i'w rhieni eu hunain.

Mae llawer o gyfleoedd y gallwch chi fanteisio arnynt i'ch helpu i gefnogi'ch plentyn gyda'i waith cartref.

Sut mae gwneud cais am ysgol Gymraeg?

Mae ceisiadau ar gyfer derbyn i ysgolion Cymraeg yn llwyddiannus lle bynnag y bo modd. Gallwch ddewis trosglwyddo eich plentyn o un ysgol i'r llall ar unrhyw adeg o'u haddysg, ac mae hyn yn cynnwys eu trosglwyddo o ysgol Saesneg ei chyfrwng i ysgol Gymraeg.

Rhaid gwneud ceisiadau drwy Dîm Derbyn i Ysgolion y Cyngor ac yn unol â'r Polisi Derbyn i Ysgolion. Ceir rhagor o wybodaeth ar y [tudalen derbyn i ysgolion](#).

Mae fy mhlentyn i wedi dechrau mewn ysgol Saesneg - gaf i ei symud i ysgol Gymraeg?

Os ydych am symud eich plentyn o ysgol Saesneg i ysgol Gymraeg, bydd y Tîm Derbyn i Ysgolion yn eich cyngori i gysylltu â Phennaeth yr ysgol berthnasol er mwyn gallu asesu unrhyw anghenion o ran cymorth trochi. Byddant hefyd yn cysylltu â'r Pennaeth perthnasol i'w hysbysu bod cais wedi dod i law a'i fod yn yr arfaeth. Pan fyddwch yn cadarnhau eich bod yn dymuno bwrw ymlaen, bydd prosesu'n mynd rhagddo fel arfer a bydd lle yn cael ei gynnig yn yr hyn a fydd yn dod yn ysgol "lletyol".

Beth yw "trochi"?

Mae rhai teuluoedd yn dewis addysg Gymraeg i'w plant yn ddiweddarach yn eu bywydau ysgol, ac rydym yma i helpu fel bod sgiliau iaith y plant hyn yn debyg i blant eraill o'u hoedran. Rydym yn cynnig hyn drwy [ddarpariaeth drochi](#) bwrpasol sydd ar gael yn y sectorau cynradd ac uwchradd.

Ar hyn o bryd rydym yn cynnal uned drochi gynradd Gymraeg yn Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon, gan gefnogi pob disgybl o oed cynradd sy'n paratoi ar gyfer addysg Gymraeg o Flwyddyn 1 i Flwyddyn 6. Mae cymorth i ddisgyblion oedran uwchradd ar gael yn uniongyrchol drwy Ysgol Gyfun Gwent Is Coed.

Beth am drafnidiaeth?

Darperir trafndiaeth o'r cartref i'r ysgol ar gyfer disgyblion oed cynradd sy'n byw 2 filltir neu fwy o'u hysgol dalgylch neu'r ysgol agosaf sydd ar gael iddynt, ac ar gyfer disgyblion oed uwchradd sy'n byw 3 milltir neu fwy o'u dalgylch neu'r ysgol agosaf sydd ar gael iddynt. Mae rhagor o wybodaeth [yma](#).